COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

ADRODDIAD A CHYFRIFON BLYNYDDOL 1998/1999

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU
ADRODDIAD BLYNYDDOL 1998/1999

Datganiad y Cadeirydd

Roedd yr etholiadau a gynhaliwyd yn ddiweddar ar 6 Mai 1999 yn arbennig o arwyddocaol ar gyfer Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru.

Cynhaliwyd etholiadau llywodraeth leol ar gyfer 14 o'r 22 o'r prif gynghorau gan ddefnyddio rhanbarthau etholiadol a argymhellwyd gan y Comisiwn i'r Ysgrifennydd Gwladol. Rydym yn falch ein bod wedi chwarae ein rhan yn y broses ddemocrataidd bwysig honno. Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cyfeirio at ein cyfrifoldebau statudol a'r modd yr ydym wedi cyflawni targedau ein rhaglen o arolygon etholiadol dros y flwyddyn a'r blynyddoedd diwethaf. Mae'r Comisiwn nawr yn parhau ag arolygon etholiadol y prif gynghorau sy'n weddill gyda'r nod o'u cwblhau o fewn y flwyddyn gyfredol.

Roedd yr etholiadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gynhaliwyd ar 6 Mai hefyd, yn arwydd o oes newydd ar gyfer llywodraeth yng Nghymru. Gan fod y Cynulliad yn gorff y bydd y Comisiwn yn atebol iddo bellach, edrychwn ymlaen gyda brwdfrydedd at weithio gyda'r sefydliad newydd hwn.

Mae arolygon ffiniau wedi ffurfio cyfran gynyddol o'n gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ar gyfer un o'r arolygon hyn, comisiynwyd, fel rhywbeth newydd, bleidlais gudd drwy'r post ar gyfer etholwyr Cymunedau Ewenni, Saint-y-brid a'r Wig. Ymatebodd cyfran uchel, sef 70%, ac roedd hyn yn awgrymu diddordeb iach mewn materion llywodraeth leol.

Drwy ein hymgynghoriadau ag awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn daethom yn ymwybodol iawn bod y paratoadau ar gyfer yr etholiadau ar 6 Mai wedi rhoi pwysau arbennig ar yr union staff a oedd yn aml yn brif bwyntiau cyswllt â llywodraeth leol. Rydym yn ddiolchgar i'r rheini a wnaeth gymaint o ymdrech i ymateb i'n ceisiadau am wybodaeth yn ystod y cyfnod prysur hwn.

Unwaith eto hoffwn nodi fy ngwerthfawrogiad o waith Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn a'm cyd Gomisiynwyr.

YR ATHRO ERIC SUNDERLAND OBE DL MA PhD LLD FIBiol
Cadeirydd

CYNNWYS

1. CYFLWYNIAD.....1

- Y Comisiwn 1
- Dyletswyddau Statudol 1
- Gweithdrefn Arolygu 2

2. AMCANION.....3

- Yr Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol.....3
- Y Rhaglen o Arolygon Etholiadol.....3
- Targedau.....3

3. GWEITHGAREDD YN Y FLWYDDYN FLAENOROL.....4

- Arolygon o'r Trefniadau Etholiadol.....4
- Arolygon o'r Prif Ardaloedd a'r Ardaloedd Cymuned.....4

4. GWAITH Y COMISIWN.....5

- Arolygon o'r Trefniadau Etholiadol.....5
- Arolygon Ardal.....6
- Arolygon Cymuned.....7

5. RHEOLAETH GORFFORAETHOL: POLISÏAU AC ARFER.....8

- Datganiad Rheoli, Memorandwm Ariannol a Chodau.....8
- Cyllideb ac Archwiliad.....8
- Cynllun Iaith Gymraeg.....8
- Hyfforddiant a Thechnoleg Gwybodaeth.....9

6. CYFRIFON.....10

1. CYFLWYNIAD

Y Comisiwn

1.1 Sefydlwyd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ym mis Mehefin 1974 o dan dermau Adran 53 Deddf Llywodraeth leol 1972 (Deddf 1972). Dynodir swyddogaethau statudol y Comisiwn yn Adrannau 53 i 78 Deddf 1972 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (Deddf 1994). Darpara Atodlen 8 i Ddeddf 1972 ar gyfer cyfansoddiad a threfniadau'r Comisiwn.

1.2 Nod y Comisiwn yw:

cynnal arolygon o ardaloedd llywodraeth leol a threfniadau etholiadol yng Nghymru, gyda'r bwriad o ystyried a ddylid gwneud cynigion i Ysgrifennydd Gwladol Cymru i weithredu newidiadau sy'n ymddangos i'r Comisiwn yn rhai sy'n ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

1.3 Aelodau'r Comisiwn yw: Yr Athro E. Sunderland OBE DL, Cadeirydd, Mr E. F. L. FitzHugh OBE DL, Dirprwy Gadeirydd, a Mrs S. G. Smith. Fe'u penodwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Deil Comisiynwyr aelodaeth o gyrff cyhoeddus eraill. Mae'r Athro Sunderland yn Gadeirydd ac yn aelod o Fwrdd Pwyllgor Cymru o'r Cyngor Prydeinig, yn Gadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Cymru Ysgrifennydd Gwladol Cymru (Asiantaeth yr Amgylchedd) ac yn aelod o Gyngor Darlledu Cymru (BBC). Mr FitzHugh yw Cadeirydd Ymddiriedolaeth NHS Gogledd Ddwyrain Cymru. Mae Mrs Smith yn aelod o Gomisiwn Ffiniau Cymru ac yn ystod y flwyddyn bu'n aelod o Gomisiwn Gorchmynion Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru yr Ysgrifennydd Gwladol.

1.4 Mae'r Comisiwn yn cwrdd tuag unwaith y mis neu yn ôl gofynion y rhaglen waith. Cynhaliwyd un ar ddeg o gyfarfodydd yn ystod 1998/99. Cefnogir y Comisiwn gan ysgrifenyddiaeth a leolir yn Nhþ Caradog; 1-6 Plas St. Andrews, Caerdydd. Ar ddechrau'r flwyddyn roedd y Comisiwn yn cyflogi 10 aelod o staff, o fewn strwythur o 3 thîm. Ym mis Gorffennaf 1998 mabwysiadwyd strwythur o 2 dîm ac roedd 7 aelod o staff yn gyflogedig ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r Comisiwn yn uniongyrchol yn cyflogi'r Ysgrifennydd a'r Swyddog Mapio ac mae'r 5 aelod arall o'r staff ar secondiad o Dþ'r Cwmnïau a'r Swyddfa Gymreig.

Dyletswyddau Statudol

1.5 Prif ddyletswyddau'r Comisiwn yw:

Ardaloedd Llywodraeth Leol

i) cynnal arolygon o'r holl brif ardaloedd yng Nghymru at ddiben ystyried a ddylid cynnig newidiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n ymddangos yn rhai sy'n ddymunol i'r Comisiwn er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus;

ii) ystyried ceisiadau am arolygon gan awdurdodau lleol;

iii) ystyried adroddiadau a gyflwynir gan brif gynghorau mewn perthynas ag arolygon cymuned a gynhaliwyd ganddynt a gwneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol;

Trefniadau Etholiadol

iv) o dan ddarpariaethau adran 64 newydd a ychwanegwyd at Ddeddf 1972 gan Adran 6 Deddf 1994, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl etholiad cyffredin cynghorwyr ar gyfer unrhyw un o'r prif ardaloedd yng Nghymru a gynhaliwyd ym 1995 roedd yn ofynnol i'r Comisiwn:

a) gynnal arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer yr ardal honno gyda'r bwriad o ystyried y trefniadau etholiadol yn y dyfodol; a

b) llunio cynigion ar gyfer y trefniadau hynny; a

v) heb fod yn llai na deg neu bymtheng mlynedd ar ôl cwblhau'r arolwg cychwynnol ac wedi hynny, ar gyfnodau tebyg, cynnal arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob prif ardal yng Nghymru.

Cyfarwyddiadau

vi) gall yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal arolwg o Gymru gyfan, neu o unrhyw un neu fwy o ardaloedd o lywodraeth leol neu rannau o ardaloedd o'r fath yng Nghymru.

Gweithdrefn Arolygu

1.6 Mae Deddf 1972 yn diffinio'r weithdrefn sydd i'w dilyn wrth ymgymryd â phob arolwg. Camau sylfaenol arolwg yw:

i) cyhoeddi dyddiad dechrau'r arolwg pan wahoddir awgrymiadau a sylwadau erbyn dyddiad penodol;

i) cyhoeddi cynigion drafft y Comisiwn pan wahoddir sylwadau arnynt yn yr un modd erbyn dyddiad penodol; a

iii) cyhoeddi cynigion terfynol pan ddylai unrhyw sylwadau pellach gael eu cyfeirio ar ôl hyn at yr Ysgrifennydd Gwladol.

2. AMCANION

2.1 Nododd Arolwg Polisi a gynhaliwyd gan y Swyddfa Gymreig ym 1993 yr arolwg o'r trefniadau etholiadol fel prif waith y Comisiwn yn ystod y cyfnod o ethol y darpar awdurdodau unedol ym mis Mai 1995 hyd at a thu hwnt i'r etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 1999.

2.2 Ym mis Mehefin 1995 rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddyd i'r Comisiwn gynnal arolwg o drefniadau etholiadol pob un o'r awdurdodau unedol yn unol ag amserlen ar gyfer cyflwyniadau gan ddod i ben erbyn mis Rhagfyr 1999. Cyhoeddodd gyfarwyddiadau hefyd i arwain y Comisiwn wrth ystyried maint cyffredinol y cynghorau, y gymhareb etholiadol a'r ystyriaeth o ran rhanbarthau un aelod/aml-aelod.

Yr Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol

2.3 Prif nod arolwg etholiadol yw cyflawni trefniadau etholiadol teg ar gyfer pob prif gyngor. Diffinnir trefniadau etholiadol fel:

i) cyfanswm nifer y cynghorwyr i'w hethol i'r cyngor;

ii) nifer a ffiniau'r rhanbarthau etholiadol;

iii) nifer y cynghorwyr i'w hethol ar gyfer pob rhanbarth etholiadol; a

iv) enw unrhyw ranbarth etholiadol.

Y Rhaglen o Arolygon Etholiadol

2.4 Er mwyn bodloni'r nod o arolygu trefniadau etholiadol y 22 prif awdurdod erbyn mis Rhagfyr 1999, mabwysiadodd y Comisiwn raglen cam wrth gam gan ddyrannu deuddeg mis i bob arolwg.

Targedau

2.5 Caiff cynnydd yr arolygon ei fonitro yn erbyn cerrig milltir allweddol ym mhob project. Nid oes unrhyw gyfnodau amser statudol ar gyfer yr ymgynghori nac ar gyfer camau eraill y weithdrefn; bydd y rhain yn ôl disgresiwn y Comisiwn. Mae'r Comisiwn wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r angen i ddarparu digon o amser ar gyfer cyflwyno safbwyntiau awdurdodau lleol a phersonau eraill sydd â diddordeb. Mabwysiadwyd targedau o fewn pob arolwg deuddeg mis i adlewyrchu'r gofynion ar gyfer cyhoeddusrwydd ac ymgynghori, cynhyrchu a chyflwyno adroddiadau ar y camau drafft a'r camau terfynol yn ogystal â'r amser sydd ei angen ar gyfer ystyried y materion dan sylw.

2.6 Cynlluniwyd y rhaglen gyda chyfnod rhwng y dyddiad targed ar gyfer pob adroddiad terfynol a therfyn amser a gyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i ganiatáu ar gyfer pob hapddigwyddiad. Mae'r cyfnod hwn wedi caniatáu i'r Comisiwn barhau i siarad gydag awdurdodau lleol neu ystyried rhagolygon etholiadol diwygiedig sydd bellach ar gael. Yn unol â hynny, at derfynau amser yr Ysgrifennydd Gwladol y cyfeirir pan nodir bod targedau wedi'u cyrraedd.

3. GWEITHGAREDD YN Y FLWYDDYN FLAENOROL

Arolygon o'r Trefniadau Etholiadol

3.1 Ym **1997/98**, parhaodd y Comisiwn â'r rhaglen a ddechreuodd ym 1995 i arolygu trefniadau etholiadol y 22 awdurdod unedol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol.

3.2 Cyhoeddwyd arolygon o'r 7 Sir/Bwrdeistref Sirol ganlynol fel cynigion drafft: **Conwy, Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg, Merthyr Tudful, Ynys Môn** a **Chasnewydd.**

3.3 Cyhoeddwyd arolygon o 9 Sir/Bwrdeistref Sirol **Sir y Fflint, Pen-y-bont ar Ogwr, Wrecsam, Sir Ddinbych, Conwy, Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful,** a **Bro Morgannwg** fel cynigion terfynol ac fe'u cyflwynwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol.

3.4 Cychwynnwyd arolygon o 6 Sir/Bwrdeistref Sirol **Ynys Môn, Ceredigion, Sir Fynwy, Casnewydd, Blaenau Gwent** a **Thor-faen.**

Arolygon o'r Prif Ardaloedd a'r Ardaloedd Cymuned

3.5 Ym mis Chwefror 1998, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddyd i'r Comisiwn arolygu'r ffin rhwng Bwrdeistrefi Sirol **Bro Morgannwg** a **Phen-y-bont ar Ogwr** yng nghyffiniau Cymunedau'r Wig, Ewenni a Saint-y-brid. Yn ystod y flwyddyn cytunodd y Comisiwn hefyd mewn egwyddor i arolygu'r ffin rhwng Bwrdeistrefi Sirol **Pen-y-bont ar Ogwr** a **Rhondda Cynon Taf** yng nghyffiniau Evanstown a Gilfach Goch. Dechreuwyd y ddau arolwg ym 1998/99.

3.6 Yn ystod y flwyddyn, cyflwynodd Cyngor Sir Benfro gynigion ar gyfer isrannu Cymuned **Llangwm a Hook** yn ddwy gymuned a chyflwynwyd argymhellion y Comisiwn, a oedd yn ategu'r cynigion, i'r Ysgrifennydd Gwladol ym mis Tachwedd 1997.

4 GWAITH Y COMISIWN

4.1 Rhagluniodd y Cynllun Gweithredol ar gyfer **1998/99** weithgareddau o fewn prif gategorïau dyletswyddau statudol y Comisiwn.

4.2 Ar y cyfan, bodlonwyd yr amcanion a bennwyd, er i'r Comisiwn deimlo'r angen i ymateb yn hyblyg i ffactorau allanol a arweiniodd at newidiadau i'r gweithgareddau arfaethedig a chyflwynwyd peth gwaith ychwanegol. Lle bo hynny'n berthnasol, cyfeirir at y rhain yn yr adroddiad ar bob categori gwaith.

Arolygon o'r Trefniadau Etholiadol

4.3 Rhagwelodd y Cynllun Gweithredol y byddai rhaglen arolygu trefniadau etholiadol y prif gynghorau, sydd wedi nodweddu adroddiadau blaenorol, yn sylweddol gyflawn.

4.4 Roedd y rhaglen yn ei gwneud yn ofynnol i 3 arolwg o **Gaerdydd, Bro Morgannwg** a **Merthyr Tudful** gael eu cyflwyno erbyn y terfyn amser a gyfarwyddwyd sef 1 Gorffennaf 1998, gan gwblhau, gydag arolygon blaenorol, 16 o'r 22 prif gynghorau. Oherwydd cynnydd yn y flwyddyn flaenorol roedd arolygon Bro Morgannwg a Merthyr Tudful wedi eu cwblhau erbyn dechrau'r flwyddyn ac fe'u dilynwyd gan gyflwyniad arolwg Caerdydd erbyn 1 Gorffennaf.

4.5 Aeth y Comisiwn yn ei flaen gyda'r arolygon a oedd yn weddill yn y rhaglen a lluniwyd eu hadroddiad terfynol ar gyfer **Casnewydd**, a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 1998. Ar yr un pryd, yn unol â chyfarwyddiadau pellach gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ailarchwiliodd y Comisiwn eu cynigion ar gyfer y trefniadau etholiadol ar gyfer y rhan honno o **Wynedd** o fewn Cymunedau Aber, Bethesda, Llandygái a Llanllechid. Roedd yr arolwg pellach yn angenrheidiol i gywiro'r effaith a gafodd gorchymyn cymuned nas datgelwyd yn flaenorol ar yr ystadegau etholiadol, a oedd yn sail i argymhelliad gwreiddiol y Comisiwn. Cynhaliwyd yr arolwg pellach rhwng Mawrth a Medi 1998.

4.6 Ym mis Hydref 1998 dechreuodd yr Ysgrifennydd Gwladol broses ymgynghori mewn perthynas â gorchmynion etholiadol drafft yn seiliedig ar arolygon y Comisiwn a gyflwynwyd. Amserwyd y gorchmynion er mwyn caniatáu i'r cynghorau dan sylw gael eu hethol o dan drefniadau etholiadol diwygiedig ym mis Mai 1999. Ym mis Tachwedd 1998 cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Gwladol gynigion y Comisiwn ar gyfer y 12 Cyngor canlynol drwy gyhoeddi Gorchmynion:

Sir Gaerfyrddin	**Powys**	**Sir Benfro**
Abertawe	**Pen-y-bont ar Ogwr**	**Rhondda Cynon Taf**
Sir y Fflint	**Wrecsam**	**Conwy**
Caerffili	**Sir Ddinbych**	**Caerdydd**

4.7 Roedd y rhain yn ychwanegol at Gynghorau **Castell Nedd Port Talbot** a **Merthyr Tudful** nad oedd gorchmynion yn angenrheidiol ar eu cyfer oherwydd i'r Ysgrifennydd Gwladol gadarnhau argymhellion y Comisiwn na fyddai unrhyw newid i'r trefniadau presennol.

4.8 Yn ystod yr ymgynghoriad ar y gorchmynion drafft awgrymodd yr Ysgrifennydd Gwladol y byddai'n gofyn i'r Comisiwn ailarchwilio eu cynigion mewn perthynas â rhannau o **Gasnewydd** a **Bro Morgannwg**. Ym mis Ionawr 1999 rhoddodd gyfarwyddyd am arolwg pellach o'r trefniadau etholiadol ar gyfer y rhannau hynny o Gasnewydd o fewn Cymunedau Coedcernyw, Maerun, Llanfihangel Gwynllŵg, Rogerstone a Pharc Tredegar. Dechreuwyd yr arolwg ym mis Chwefror 1999 gyda therfyn amser a gyfarwyddwyd sef 1 Rhagfyr 1999. Rhagwelir y ceir cyfarwyddyd yn nodi'r cymunedau i'w hailarchwilio ym Mro Morgannwg yn y flwyddyn gyfredol.

4.9 O'r 5 arolwg etholiadol arall sydd â therfyn amser a gyfarwyddwyd sef 1 Rhagfyr 1999 cyflwynodd y Comisiwn **Ynys Môn** ym mis Tachwedd 1998 a **Blaenau Gwent** ym mis Ionawr 1999.

4.10 Rhagwelodd y cynllun am y flwyddyn y byddai rhai o'r prif gynghorau am gynnal arolygon o'u strwythur cymunedol hwy ac mae **Ceredigion, Sir Fynwy** a **Thor-faen** wedi gwneud hynny. Pwysleisiodd cyfarfod rhwng y Comisiwn a Chynghorwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen ar ôl cyhoeddi Adroddiad Drafft y Comisiwn ar gyfer Tor-faen safbwyntiau aelodau etholedig bod yna angen am arolwg o'r fath yno. Gan mai ardaloedd cymuned, a lle y bodolant, wardiau cymuned yw darpar flociau adeiladu cynigion y Comisiwn ar gyfer trefniadau etholiadol, effeithiodd yr arolygon cymuned

hyn ar gynnydd y 3 arolwg arall ac ataliwyd gwaith arnynt tra'n aros am gyhoeddiad y cynghorau o'u gorchmynion cymuned drafft. Mae'r Comisiwn wedi cytuno â'r cynghorau dan sylw ar amserlenni a fydd, os glynir atynt, yn rhoi digon o amser i ystyried y diwygiadau diweddaraf hyn a chwblhau'r arolygon etholiadol erbyn y terfyn amser a gyfarwyddwyd sef 1 Rhagfyr 1999.

Arolygon Ardal

4.11 Yn ystod y flwyddyn dechreuodd y Comisiwn 3 arolwg o'r ffiniau rhwng y prif gynghorau. Mae gan y broses arolygu ffiniau yr un gweithdrefnau ymgynghori a chyhoeddusrwydd yn y camau cychwynnol, drafft a therfynol â'r arolygon o'r trefniadau etholiadol.

4.12 Ym mis Mai 1998, dechreuodd yr arolwg o'r ffin rhwng Bwrdeistrefi Sirol **Pen-y-bont ar Ogwr** a **Bro Morgannwg** yng nghyffiniau Cymunedau Ewenni, Saint-y-brid a'r Wig, a gyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mewn gwirionedd, gofynnwyd i'r Comisiwn argymell a ddylai'r Cymunedau aros yn rhan o Fro Morgannwg neu a ddylid eu trosglwyddo i Ben-y-bont ar Ogwr. Yn ogystal â chael tystiolaeth gan y 2 brif gyngor, y 3 chyngor cymuned, a nifer o ddarparwyr gwasanaethau eraill ac unigolion, cynhaliodd y Comisiwn bleidlais gudd o etholwyr drwy'r post. Cyhoeddwyd adroddiad drafft y Comisiwn ar gyfer ymgynghori ym mis Rhagfyr a chaiff yr adroddiad terfynol ei gyflwyno yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 1999.

4.13 Dechreuwyd yr arolwg o'r ffin rhwng Bwrdeistrefi Sirol **Pen-y-bont ar Ogwr** a **Rhondda Cynon Taf** yng nghyffiniau setliadau cyfagos Evanstown (Pen-y-bont ar Ogwr) a Gilfach Goch (Rhondda Cynon Taf) ym mis Gorffennaf 1998 a chyhoeddwyd cynigion drafft ym mis Mawrth 1999. Cyhoeddir yr adroddiad terfynol yn y flwyddyn gyfredol.

4.14 Dechreuwyd arolwg y Comisiwn o'r ffin rhwng Bwrdeistrefi Sirol **Blaenau Gwent** a **Chaerffili** yng nghyffiniau Ystâd Ddiwydiannol Tafarnaubach ym mis Chwefror 1999. Bydd y rhan fwyaf o gamau'r arolwg hwn felly yn y flwyddyn gyfredol.

4.15 Yn ystod y flwyddyn derbyniodd y Comisiwn nifer o geisiadau i gynnal arolygon o ffiniau. O ganlyniad i ymgynghori â'r prif gynghorau dan sylw mae'r Comisiwn wedi cytuno i gynnal arolygon o rannau o'r ffiniau rhwng **Ceredigion** a **Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin** a **Sir Benfro, Castell Nedd Port Talbot** ac **Abertawe** a **Rhondda Cynon Taf** a **Bro Morgannwg**. Cynhelir yr arolygon hyn yn y flwyddyn gyfredol wrth i'r rhaglen o arolygon etholiadol gael ei chwblhau.

Arolygon Cymuned

4.16 Dyletswydd y prif gynghorau yw cynnal arolygon o ardaloedd a threfniadau etholiadol eu cymunedau. Mae cynghorau sy'n cynnig diwygiadau i ardaloedd cymuned yn eu gwneud fel argymhellion i'r Comisiwn, sydd ar ôl eu hystyried, yn gwneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol. Cyfrifoldeb y prif gynghorau yw arolygon o'r trefniadau etholiadol cymunedol, gan gynnwys newidiadau i wardiau cymuned, er bod gan y Comisiwn bwerau wrth gefn mewn rhai amgylchiadau. Mae pob arolwg cymuned, p'un a yw'r Comisiwn yn uniongyrchol gysylltiedig â hwy ai peidio wrth wneud y gorchmynion priodol, yn effeithio'n anuniongyrchol ar y Comisiwn gan mai'r ardaloedd cymuned a'r wardiau cymuned yw blociau adeiladu ardaloedd etholiadol y prif gynghorau.

4.17 Er y cafwyd trafodaethau yn ystod y flwyddyn gyda'r prif gynghorau hynny sy'n bwriadu cynnal arolygon cymuned a fyddai'n effeithio ar waith arolygon etholiadol y Comisiwn ei hun, ni chyflwynwyd unrhyw argymhellion o ran ardaloedd cymuned i'r Comisiwn eu hystyried. Manteisiodd y Comisiwn ar y cyfle yn eu Cyfarfod Blynyddol Agored ym mis Tachwedd 1998 i nodi yr arolygwyd strwythur cymunedol presennol Cymru ddiwethaf ar adeg yr Arolwg Cymuned Arbennig dros 15 mlynedd yn ôl a bellach mae wedi dyddio mewn sawl lle. Trefnir seminar eleni ar y pwnc hwn gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

5. RHEOLAETH GORFFORAETHOL: POLISÏAU AC ARFER

Datganiad Rheoli, Memorandwm Ariannol a Chodau

5.1 Mae Datganiad Rheoli a Memorandwm Ariannol yn arwain prosesau rheoli'r Comisiwn ac yn galw am gyflwyno Cynlluniau Gweithredol, Adroddiadau Blynyddol a gwybodaeth berthnasol arall at ddibenion cyllido, monitro ac asesu perfformiad. Yn ystod y flwyddyn ategwyd y rhain gan gyswllt chwarterol a chyfarfod arolygu blynyddol gydag adran nawdd y Swyddfa Gymreig.

5.2 Mabwysiadwyd Cod Ymarfer Arfer Da ar gyfer Comisiynwyr. Mae cofrestr o fuddiannau ariannol uniongyrchol ac anuniongyrchol Comisiynwyr ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio a gellir trefnu i'w weld drwy gysylltu â'r Ysgrifennydd yn swyddfeydd y Comisiwn. Mae yna god tebyg mewn perthynas â staff.

5.3 Mabwysiadwyd arferion gwaith sy'n cytuno ag egwyddorion Siarter y Dinesydd, yn arbennig mewn perthynas â gonestrwydd, ymgynghori a chymwynasgarwch. Er enghraifft, rhoddodd y Comisiwn gyhoeddusrwydd eang i'w bwriad i gynnal pob arolwg ac ysgrifennu at ac ymweld â'r awdurdod lleol dan sylw i drafod yr arolwg a gwahodd eu sylwadau cychwynnol. Ar gyfer pob arolwg mae'r Comisiwn yn cyhoeddi datganiad i'r wasg ar eu cynigion drafft a'u cynigion terfynol a chyflenwir digon o gopïau o'r adroddiadau i alluogi iddynt gael eu dosbarthu am ddim i bob aelod o'r prif gyngor,

cynghorau cymuned a llyfrgelloedd lleol. Mae nifer o gopïau ar gael hefyd i drigolion lleol ar gais.

5.4 Cynhaliodd y Comisiwn Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 27 Tachwedd 1998 yn Llanfair ym Muallt.

Cyllideb ac Archwiliad

5.5 Roedd gwariant y Comisiwn ar gostau staff, taliadau gweithredol eraill a chaffaeliadau o asedion sefydlog yn ystod 1998/99 o £398,684 ymhell o fewn y dyraniad cymorth grant ar gyfer y flwyddyn o £505,000. Mae hyn yn adlewyrchu maint y gwaith a amlinellir ym mhennod 4 ac ymroddiad y Comisiwn i gyflawni gwerth am arian wrth brynu nwyddau a gwasanaethau.

5.6 Er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a gwerth am arian mae cyfres gynhwysfawr o gyfarwyddiadau desg sy'n ymwneud â systemau a gweithdrefnau mewn grym. Mae Grant Thornton wedi cynnal yr archwiliad mewnol o'r systemau a'r gweithdrefnau hyn ac mae'r Swyddfa Archwiliadau Genedlaethol wedi cynnal yr archwiliad allanol o gyllid y Comisiwn.

Cynllun Iaith Gymraeg

5.7 Mae'r Comisiwn yn dymuno cadarnhau y gall y cyhoedd ddelio â hwy yn Gymraeg ac ym mis Gorffennaf 1998, mabwysiadodd y Comisiwn eu Cynllun Iaith Gymraeg yn unol â darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Gorchymyn Cynlluniau yr Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 1996. Ym mis Tachwedd 1998 cyflwynodd y Comisiwn adroddiad hanner blwyddyn i Fwrdd yr Iaith Gymraeg a bellach maent wedi cyhoeddi eu hadroddiad blynyddol cyntaf ar weithrediad y cynllun. Wrth grynhoi, mae'r adroddiad yn cadarnhau bod y Comisiwn yn cydymffurfio â'r mesurau, yr amserlen a'r targedau a bennir yn eu cynllun. Cynhwysir tystiolaeth o'r ymrwymiad i'r **egwyddor y bydd y Comisiwn, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gyfartal** yng nghyhoeddiadau dwyieithog yr holl adroddiadau a'r cyhoeddusrwydd y cyfeirir atynt yn yr Adroddiad Blynyddol hwn. Fodd bynnag mae'r cynllun hefyd yn cynnwys llawer o fesurau manwl eraill i ategu'r egwyddor a chyflenwir copi o'r adroddiad llawn ar gais neu gellir cael gafael arno ar wefan y Comisiwn.

Hyfforddiant a Thechnoleg Gwybodaeth

5.8 Mae hyfforddiant staff wedi canolbwyntio ar TG yn ystod y flwyddyn er bod cyrsiau sy'n berthnasol i ddibenion eraill datblygu staff wedi eu mynychu a manteisiwyd ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn cynadleddau a seminarau yn ymwneud â llywodraeth leol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

5.9 Mae'r Comisiwn wedi sefydlu cam cyntaf System Gwybodaeth Ddaearyddol i wella eu gallu i brofi a chyflwyno cynigion sy'n ymwneud â'u gwaith. Mae systemau technoleg gwybodaeth y Comisiwn wedi eu profi'n llwyddiannus er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Flwyddyn 2000.

6. CYFRIFON

RHAGAIR I'R CYFRIFON
ar gyfer y flwyddyn hyd ben 31 Mawrth 1999

Cefndir Statudol

6.1 Sefydlwyd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru o dan Adran 53 Deddf Llywodraeth Leol 1972 at ddibenion cynnal arolygon o ardaloedd a threfniadau etholiadol llywodraeth leol yng Nghymru.

6.2 O 1 Ebrill 1995 daeth y Comisiwn yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol a ariennir gan Gymorth grant gan y Swyddfa Gymreig.

6.3 Swyddogaeth gyffredinol y Comisiwn, fel y'i nodwyd yn Neddf 1972, yw "gwneud cynigion i'r Ysgrifennydd Gwladol i weithredu newidiadau sy'n ymddangos i'r Comisiwn fel rhai sy'n ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus".

6.4 Y prif ddyletswyddau o dan statud yw:

i) cynnal arolygon o holl ardaloedd llywodraeth leol Cymru i gyd at ddiben ystyried p'un a ddylid cynnig newidiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n ymddangos i'r Comisiwn fel rhai sy'n ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus;

ii) ystyried ceisiadau am arolygon gan awdurdodau lleol yn ogystal ag argymhellion gan brif gynghorau yn deillio o'u harolygon cymuned eu hunain;

iii) ystyried canlyniadau arolygon a gynhaliwyd naill ai gan y Comisiwn neu gan yr awdurdodau lleol a gwneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol;

iv) cynnal arolwg o Gymru gyfan, neu un neu fwy o ardaloedd llywodraeth leol neu rannau o'r fath ardaloedd yng Nghymru, fel y cyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol; a

v) o dan ddarpariaethau Adran 64 newydd a ychwanegwyd i Ddeddf 1972 gan Adran 6 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl etholiad cyffredin cynghorwyr i unrhyw un o'r prif ardaloedd yng Nghymru a gynhaliwyd ym 1995 i:

a) cynnal arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer yr ardal honno gyda'r bwriad o ystyried y trefniadau etholiadol yn y dyfodol; a

b) llunio cynigion ar gyfer y trefniadau hynny.

6.5 Paratowyd y cyfrifon yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd ar 17 Mai 1996 gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru gyda chytundeb y Trysorlys. Gellir cael copi o'r Cyfarwyddyd Cyfrifon gan y Comisiwn.

Arolwg o'r Gweithgareddau

6.6 Yn ystod y flwyddyn cwblhaodd y Comisiwn 4 arolwg arall o drefniadau etholiadol y prif gynghorau i'w cyflwyno i Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Er i'r Comisiwn ar y cychwyn barhau i arolygu trefniadau etholiadol y 3 chyngor olaf yn eu rhaglen o arolygon, ataliwyd datblygiad y cynigion dros dro i ganiatáu i'r cynghorau gynnal arolygon cymuned a gynhelir o reidrwydd cyn gwaith y Comisiwn.

6.7 Cynhaliodd y Comisiwn, yn ôl cyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol, arolwg pellach o'r trefniadau etholiadol ar gyfer rhan o Sir Gwynedd ac arolwg o'r ffin rhwng Bwrdeistrefi Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg.

6.8 Gan ymateb i geisiadau, dechreuodd y Comisiwn hefyd arolygon o'r ffiniau Bwrdeistref Sirol rhwng Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf a rhwng Blaenau Gwent a Chaerffili.

6.9 Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol Orchmynion Etholiadol ar gyfer 12 cyngor gan weithredu argymhellion y Comisiwn a chytunodd ag argymhellion y Comisiwn nad oedd angen unrhyw newid mewn perthynas â 2 arall. Rhoddodd gyfarwyddyd am arolwg pellach o'r trefniadau etholiadol ar gyfer rhan o Gasnewydd.

Canlyniadau ac Adfeddiannau

6.10 Cyfanswm y diffug am y cyfnod oedd £1,885 ac fe'i trosglwyddwyd i gronfeydd wrth gefn. Cyfanswm cronfeydd y Llywodraeth ar 31 Mawrth 1999 oedd £19,738.

Polisi Talu

6.11 Polisi talu'r Comisiwn yw talu pob anfoneb o fewn 30 diwrnod o'u derbyn. Mae'r polisi hwn yn unol â'r gofynion a nodir yn Government Accounting ac yn dilyn Cod Talu

Prydlon y CBI. Ym 1998/99, derbyniodd y Comisiwn 347 o anfonebau a thalwyd 91% o'r rhain o fewn 30 diwrnod.

Datblygiadau yn y Dyfodol

6.12 Disgwylir i raglen y Comisiwn o arolygon etholiadol ddod i ben ym 1999/2000, er y bydd y dyddiad gwirioneddol yn dibynnu ar unrhyw gyfarwyddiadau pellach a allai gael eu cyhoeddi yn dilyn cyflwyno'r adroddiadau terfynol sy'n weddill.

6.13 Mae'r Comisiwn, er 1 Gorffennaf 1999, wedi'u hariannu ac yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gall y Cynulliad Cenedlaethol, fel rhan o'i ystyriaeth o'r Papur Gwyn, "Moderneiddio Llywodraeth Leol yng Nghymru", gynnig newidiadau i'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau sy'n berthnasol i waith arolygon etholiadol y Comisiwn yn y dyfodol.

6.14 Mae gan y Comisiwn rwymedigaeth barhaus i gynnal arolygon o ardaloedd y prif gynghorau ac i roi ystyriaeth i unrhyw argymhellion a wneir gan brif gynghorau mewn perthynas ag arolygon o ardaloedd cymuned a gynhelir ganddynt.

Aelodau'r Comisiwn

6.15 Aelodau'r Comisiwn a fu'n gwasanaethu yn ystod y flwyddyn oedd:

Yr Athro E Sunderland OBE DL	(Cadeirydd)
E F L FitzHugh OBEDL	(Dirprwy Gadeirydd)
Mrs S G Smith	

6.16 Ar 1 Ebrill 1999 cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Gwladol ei fod wedi ailbenodi Mrs Smith tan 31 Mawrth 2002.

Penodi Archwilwyr

6.17 Y Rheoleiddiwr a'r Archwiliwr Cyffredinol yw archwiliwr penodedig y Comisiwn.

6.18 Mae'r Comisiwn yn gweithredu fel pwyllgor archwilio i ystyried pob adroddiad gan archwilwyr mewnol ac allanol.

R L KNIGHT
Swyddog Cyfrifo
Medi 1999

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R COMISIWN A'R YSGRIFENNYDD

Mae gofyn i'r Comisiwn baratoi datganiad cyfrifon ar y ffurf a'r sail a bennwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru gyda chaniatâd y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o gyflwr busnes y Comisiwn ar ddiwedd y flwyddyn a'u hincwm a'u gwariant a'u llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Asiantaeth:

i) ufuddhau i'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru gyda chaniatâd y Trysorlys, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifo addas yn gyson;

ii) barnu a gwneud amcangyfrifon ar sail resymol;

iii) nodi a ddilynwyd safonau cyfrifo cymwys, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol; a

iv) paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw, oni bai ei bod yn amhriodol i dybio y bydd yr endid yn parhau i weithredu.

Mae Swyddog Cyfrifo y Swyddfa Gymreig wedi penodi yr uwch swyddog llawn amser, yr Ysgrifennydd, fel Swyddog Cyfrifo i'r Comisiwn. Mae ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros wedduster a rheoleidd-dra yr arian cyhoeddus a'i gyfrifoldeb dros gadw cofnodion cywir, wedi eu nodi ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifo ar gyfer Cyrff Cyhoeddus Anadrannol, a gyflwynwyd gan y Trysorlys ac a gyhoeddwyd yn Government Accounting.

DATGANIAD AR Y SYSTEM RHEOLAETH ARIANNOL FEWNOL

Fel Swyddog Cyfrifo, rwy'n cydnabod fy nghyfrifoldeb dros sicrhau y cynhelir system effeithiol o reolaeth ariannol fewnol ac y'i gweithredir gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru.

Dim ond sicrwydd rhesymol y gall y system ei ddarparu ac nid sicrwydd absoliwt y diogelir asedion, yr awdurdodir ac y cofnodir trafodion yn gywir, a naill ai yr atelir gwallau neu unrhyw afreoleidd-dra perthnasol neu y canfyddir hwy o fewn cyfnod amserol.

Seilir y system rheolaeth ariannol fewnol ar fframwaith o wybodaeth rheoli reolaidd, gweithdrefnau gweinyddol gan gynnwys gwahanu dyletswyddau, a system o ddirprwyo ac atebolrwydd. Yn arbennig, mae'n cynnwys:

- systemau cyllido cynhwysfawr â chyllideb flynyddol a arolygir ac y cytunir arni gan y Comisiwn;
- arolygon rheolaidd gan y Comisiwn o adroddiadau ariannol cyfnodol a blynyddol sy'n nodi perfformiad ariannol yn erbyn y rhagolygon;
- pennu targedau i fesur perfformiad ariannol a pherfformiad arall;
- canllawiau caffael wedi'u diffinio'n glir.

Mae Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru wedi penodi archwilwyr mewnol sy'n gweithredu i'r safonau a ddiffinnir yn Llawlyfr Archwiliadau Mewnol y Llywodraeth. Mae dadansoddi'r risg yr amlygir y Comisiwn iddi yn sail i waith yr archwilwyr mewnol a seilir cynlluniau archwilio mewnol blynyddol ar y dadansoddiad hwn. Cadarnheir y dadansoddiad o'r risg a'r cynlluniau archwilio mewnol gan Bwyllgor Archwilio'r Comisiwn ac fe'u cymeradwyir gennyf. O leiaf bob blwyddyn, caf adroddiad ar y gweithgaredd archwilio mewnol yn y Comisiwn gan yr archwilwyr mewnol penodedig. Mae'r adroddiad yn cynnwys barn annibynnol yr archwiliwr mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheolaeth ariannol fewnol y Comisiwn.

Mae gwaith yr archwilwyr mewnol, y Pwyllgor Archwilio sy'n goruchwylio gwaith yr archwilwyr mewnol, swyddog cyllid y Comisiwn sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli ariannol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr mewnol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill, yn sail i'm harolwg o effeithiolrwydd y system rheolaeth ariannol fewnol.

R L Knight
Swyddog Cyfrifo
Medi 1999

TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLEIDDIWR A'R ARCHWILIWR CYFFREDINOL I YSGRIFENNYDD GWLADOL CYMRU

Rwyf wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 17 i 26. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i diwygiwyd drwy adbrisio asedau sefydlog penodol a'r polisïau cyfrifo a nodir ar dudalennau 21 a 22.

Priod gyfrifoldebau'r Comisiwn, yr Ysgrifennydd, a'r Archwiliwr

Fel y disgrifir ar dudalen 13, y Comisiwn a'r Ysgrifennydd sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Mae'r Comisiwn a'r Ysgrifennydd hefyd yn gyfrifol am baratoi cynnwys yr Adroddiad Blynyddol. Caiff fy nghyfrifoldebau i, fel archwiliwr annibynnol, eu harwain gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesol y proffesiwn archwilio.

Adroddaf fy marn ar p'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg a chywir ai peidio ac a ydynt wedi'u paratoi yn unol â chyfarwyddiadau a wnaed gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac a yw'r gwariant a'r incwm ym mhob ystyr berthnasol wedi'u cymhwyso i'r dibenion y'u bwriadwyd gan y senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Adroddaf hefyd os, yn fy marn I, nad yw'r rhagair yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r Comisiwn wedi cadw cofnodion cyfrifo cywir, neu os nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

Darllenaf y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol ac ystyriaf a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Ystyriaf y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol.

Arolygaf a yw'r datganiad ar dudalen 14 yn adlewyrchu cydymffurfiad y Comisiwn ag arweiniad y Trysorlys 'Corporate governance: statement on the system of internal financial control'. Adroddaf os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennir gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Cyfrifo a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sydd yn berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r barnau arwyddocaol a wnaed gan y Comisiwn a'r Ysgrifennydd wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Comisiwn, wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol ai peidio.

Cynlluniais a chynhaliais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn rhoi tystiolaeth ddigonol i mi roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, p'un a'u hachoswyd drwy gamgymeriad, neu drwy dwyll neu afreoleidd-dra arall a bod y gwariant a'r incwm, ym mhob achos perthnasol, wedi'u cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sydd yn eu llywodraethu. Wrth lunio fy marn, rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd y wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

Barn

Yn fy marn i

i) rhydd y datganiadau ariannol olwg wir a theg o faterion Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ar 31 Mawrth 1999 ac o'r diffyg, cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llif ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny a'u bod wedi'u paratoi yn gywir yn unol â'r cyfarwyddiadau a wnaed gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru; a

ii) ym mhob achos perthnasol, mae'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sydd yn llywodraethu drostynt.

I J SUMMERS
ar ran y Rheoleiddiwr a'r Archwiliwr
Ariannol Cyffredinol

Y Swyddfa Archwiliadau Genedlaethol
23 – 24 Park Place
CAERDYDD
CF1 3BA

Medi 1999

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

CYFRIF INCWM A GWARIANT
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 1999

	Nodiadau	**1999**	1998
		£	£
INCWM GROS			
Cymorth Grant	2	**386,578**	434,197
Rhyddhau Grant Gohiriedig y Llywodraeth	9	**12,212**	13,679
		398,790	447,876
GWARIANT			
Costau staff	3	**214,712**	254,621
Dibrisiant a symiau eraill a ddilewyd o asedion sefydlog	5	**11,715**	13,266
Taliadau tybiannol: Cost Cyfalaf		**1,250**	1,617
Taliadau gweithredu eraill	4	**172,408**	177,166
		400,085	446,670
Gwarged/(diffyg) gweithredu		**(1,295)**	1206
Llog i'w dderbyn		**1,190**	1,116
Diffyg wrth waredu asedion sefydlog		**(497)**	(435)
Swm a ildiwyd i'r Swyddfa Gymreig		**(1,283)**	(990)
Gwarged/(diffyg) ar gyfer y flwyddyn a drosglwyddwyd i'r cronfeydd wrth gefn		**(1,885)**	897
DATGANIAD O GRONFEYDD WRTH GEFN ARGADWEDIG			
Gwarged/(Diffyg) argadwedig a ddygwyd mlaen		**1,754**	(782)
(Diffyg)/gwarged ar gyfer y flwyddyn		**(1,885)**	897
Trosglwyddo wrth waredu asedion sefydlog		**-**	22
Addasiad ar gyfer cost cyfalaf		**1,250**	1,617
(Diffyg)/gwarged argadwedig a gariwyd ymlaen		**1,119**	1,754

Ystyrir yr holl weithgareddau fel rhai parhaus.

Mae'r nodiadau ar dudalen 21 i 26 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

MANTOLEN
fel ar 31 Mawrth 1999

	Nodiadau	1999		1998	
		£	£	£	£
ASEDION SEFYDLOG					
Asedion Diriaethol Sefydlog	5		**18,619**		20,163
ASEDION CYFREDOL					
Dyledwyr a rhagdaliadau	6	**24,396**		1,754	
Arian yn y banc/mewn llaw		**5,098**		22,246	
		29,494		24,000	
CREDYDWYR					
Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn	7	**(28,375)**		(22,246)	
ASEDION CYFREDOL NET			**1,119**		1,754
CYFANSWM YR ASEDION LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL			**19,738**		21,917
ARIANNWYD GAN:					
CRONIADAU AC INCWM GOHIRIEDIG					
Grant Gohiriedig y Llywodraeth	9		**18,619**		19,267
CRONFEYDD WRTH GEFN					
Cyfrif Incwm a Gwariant	9		**1,119**		1,754
Cronfa Adbrisio	9		**-**		896
CYFANSWM CRONFEYDD Y LLYWODRAETH			**19,738**		21,917

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 26 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

R L KNIGHT
Swyddog Cyfrifo
Medi 1999

COMSIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

DATGANIAD LLIF ARIAN
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 1999

Cysoni elw gweithredu i fewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu

	Nodiadau	1999	1998
		£	£
(Diffyg)/gwarged gweithredu		**(1,295)**	1,206
Addasiad ar gyfer tâl tybiannol - Cost Cyfalaf		**1,250**	1,617
Dibrisiant a symiau eraill a ddilewyd o asedion sefydlog		**11,715**	13,266
(Cynnydd) mewn dyledwyr		**(22,642)**	(446)
Cynnydd mewn credydwyr		**6,129**	1,767
Rhyddhau Grant Gohiriedig y Llywodraeth		**(12,212)**	(13,679)
Mewnlif/(all-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredu		**(17,055)**	3,731

DATGANIAD LLIF ARIAN

(All-lif)/mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu		**(17,055)**	3,731
Enillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid	10	**(93)**	126
Gwariant cyfalaf	10	**(11,564)**	(674)
Cyllido	10	**11,564**	674
(Gostyngiad)/cynnydd mewn arian parod		**(17,148)**	3,857

Cysoni llif arian parod net i symudiad mewn cronfeydd net

(Gostyngiad)/cynnydd mewn arian parod ar gyfer y cyfnod	**(17,148)**	3,857
Cronfeydd net ar 1 Ebrill	**22,246**	18,389
Cronfeydd net ar 31 Mawrth 1999	**5,098**	22,246

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 26 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

DATGANIAD O GYFANSWM YR ENILLION A'R COLLEDION CYDNABYDDEDIG
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 1999

	1999	1998
	£	£
Gwarged / (diffyg) ar gyfer y flwyddyn ariannol	**(1,885)**	897
Addasiad ar gyfer cost dybiannol cyfalaf	**1,250**	
Enillion a (cholledion) cydnabyddedig eraill ar gyfer y flwyddyn	**(896)**	2,031
Cyfanswm yr enillion a'r (colledion) cydnabyddedig ar gyfer y flwyddyn	**(1,531)**	2,928

Mae'r nodiadau ar dudalennau 20 i 27 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 1999

1. POLISÏAU CYFRIFO

1.1 Confensiwn Cyfrifo

Paratoir y cyfrifon o dan sail cost hanesyddol ac eithrio y caiff asedion sefydlog, lle bo hynny'n briodol, eu cario ar y gwerth i'r busnes o ran costau cyfredol. Heb gyfyngu ar y wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifo a datgelu Deddf y Cwmnïau 1985 a'r safonau cyfrifo a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo i'r graddau bod y gofynion hynny yn briodol. Mae'r Comisiwn wedi ei eithrio o'r angen i gynhyrchu nodyn o enillion a cholledion cost hanesyddol o dan Safon Cofnodi Ariannol Rhif 3.

1.2 Prisio asedion sefydlog

Nodir asedion sefydlog ar eu gwerth i'r Comisiwn trwy gyfeirio at gostau adnewyddu cyfredol llai dibrisiant. Cyfalefir asedion sefydlog ar gost caffael a gosod a chânt eu hadbrisio yn flynyddol gan ddefnyddio mynegeio priodol. Caiff costau meddalwedd cyfrifiadurol eu dileu fel rhai a dalwyd.

Caiff cynnydd neu ostyngiad dros dro mewn gwerth pob dosbarth o asedion eu cymryd i'r gronfa adbrisio. Codir gostyngiadau parhaol mewn gwerth ar y cyfrif Incwm a Gwariant.

1.3 Dibrisiant

Cyfrifir dibrisiant asedion sefydlog i ddileu eu cost neu brisiant dros eu bywyd amcangyfrifol defnyddiol fel a ganlyn:

Offer cyfrifiadurol	5 mlynedd
Dodrefn ac offer swyddfa	5 mlynedd

1.4 Grantiau'r Llywodraeth

Credydir grantiau o natur refeniw i incwm yn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi.

Caiff grantiau'r Llywodraeth sydd i'w derbyn am wariant cyfalaf eu credydu i gyfrif grant gohiriedig y llywodraeth a'u rhyddhau i'r cyfrif incwm a gwariant dros fywyd defnyddiol disgwyliedig yr asedion perthnasol drwy symiau cyfalaf.

1.5 Treth Ar Werth (TAW)

Nid yw'r Comisiwn wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Mae'r holl wariant a'r pwrcasau asedion sefydlog yn cynnwys y TAW berthnasol.

1.6 Pensiynau

Telir symiau priodol i'r Tâl-feistr Cyffredinol i gynrychioli rhwymedigaethau cronnus Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil o ran pensiynau a budd-daliadau eraill tebyg i bobl a gyflogir gan y Comisiwn ac o ran y treuliau gweinyddol y gellir eu priodoli i'r rhwymedigaethau a'u clirio.

1.7 **Taliadau Tybiannol: Cost Cyfalaf**

Yn ôl cyfarwyddyd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, cynhwysir tâl cyfalaf tybiannol sy'n adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddir mewn costau gweithredu ac fe'i gweithredir ar 6% o'r cyfalaf a ddefnyddir.

2. CYMORTH GRANT

	1999 £	1998 £
Cymorth Grant a dderbyniwyd gan y Swyddfa Gymreig (Dosbarth XIV, Pleidlais 3)	**374,865**	441,941
Ychwanegwch: Swm i'w dderbyn gan y Swyddfa Gymreig	**23,277**	-
Llai: Swm i'w ad-dalu i'r Swyddfa Gymreig	**-**	(7,070)
Llai: Cymorth Grant ar gyfer gwariant cyfalaf	**(11,564)**	(674)
Cymorth Grant a gredydwyd i'r cyfrif Incwm a Gwariant	**386,578**	434,197

3. COSTAU STAFF AC AELODAU:

		1999 £	1998 £
i)	**Costau Staff ac Aelodau**		
	Cydnabyddiaeth Aelodau'r Comisiwn	**12,223**	13,902
	Cyflogau	**166,222**	197,842
	Yswiriant Gwladol Cyflogwyr	**13,318**	15,432
	Costau pensiwn	**22,949**	27,445
		214,712	254,721
	Nifer y staff ar gyfartaledd a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn ariannol	**9**	11

Ac eithrio'r Ysgrifennydd, nid enillodd unrhyw un o staff y Comisiwn fwy na £30,000.

ii) Mae gweithwyr y Comisiwn yn Weision Sifil y mae amodau Deddfau Pensiwn 1965 a 1972 a diwygiadau dilynol yn gymwys iddynt. Ar gyfer 1998-99 talwyd cyfraniadau (ac eithrio TAW) i'r Tâl-feistr Cyffredinol ar gyfraddau a bennwyd o

bryd i'w gilydd gan Actiwari'r Llywodraeth a'u cynghori gan y Trysorlys. Ar gyfer 1998-99 roedd y cyfraddau yn amrywio rhwng 12.0% a 16.5% o'r cyflog gros yn dibynnu ar gyflog y cyflogai.

iii) **Cydnabyddiaeth Aelodau'r Comisiwn**

Roedd cydnabyddiaeth aelodau'r Comisiwn yn ymwneud yn gyfan gwbl â'r gwasanaethau a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn. Ni wnaed unrhyw gyfraniadau pensiwn.

Roedd cyflog Cadeirydd y Comisiwn, sef yr aelod a gafodd y tâl uchaf hefyd, yn £5,494 (1997-98: £7,249). Derbyniodd aelodau eraill y Comisiwn lai na £5,000 yr un.

iv) **Cydnabyddiaeth yr Ysgrifennydd**

Dechreuodd yr Ysgrifennydd presennol yn ei swydd ar 22 Ebrill 1996 o dan gontract sefydlog pedair blynedd. Roedd ei gydnabyddiaeth yn ystod yn flwyddyn yn £45,603 gan gynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr o £6,265 (1997-98: £44,794, gan gynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr o £6,672). Ni dderbyniodd yr Ysgrifennydd unrhyw fonws neu fanteision trethadwy. Mae'r Ysgrifennydd yn aelod cyffredin o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Roedd cyfraniadau'r cyflogwr i'r cynllun yn 16.5% o gyflog yr Ysgrifennydd.

4. COSTAU GWEITHREDU ERAILL

	1999	1998 (a ail-ddatganwyd)
	£	£
Teithio a Chynhaliaeth:		
Staff	**3,367**	3,326
Aelodau'r Comisiwn	**6,065**	6,388
Ffioedd Cwrs a Hyfforddi Staff	**3,952**	1,406
Ffi Archwilio Allanol	**5,111**	5,494
Hysbysebu	**35,974**	44,669
Cyfieithu	**4,837**	5,448
Argraffu, post a deunydd papur	**16,023**	21,228
Ffôn	**2,590**	1,209
Costau adeiladau	**66,759**	66,858
Llogi peiriannau swyddfa	**1,974**	1,810
Cyfreithiol a phroffesiynol	**8,003**	7,078
Costau cyfrifiaduron digyfalaf	**12,305**	2,573
Arall	**5,448**	9,679
	172,408	177,166

Cynhwyswyd categori newydd 'Costau cyfrifiaduron digyfalaf' ym 1999. Cynhwyswyd y costau hyn yn flaenorol yn y categorïau 'Argraffu, post a deunydd papur' ac 'Arall'. Ail-ddatganwyd ffigurau cyfatebol yn unol â hynny.

5. ASEDION SEFYDLOG DIRIAETHOL

	Offer Cyfrifiadurol £	Dodrefn ac Offer Cyfrifiadurol £	Cyfanswm £	
Cost neu Brisiad				
Ar 1 Ebrill 1998	27,558	16,808	44,366	
Ychwanegiadau	7,788	3,776	11,564	
Gwarediadau	-	(1,242)	(1,242)	
Adbrisio	-	450	450	
Gostyngiad parhaol mewn gwerth	(7,372)	-	(7,372)	
Ar 31 Mawrth 1999	**27,974**	**19,792**	**47,766**	
Dibrisiant				
Ar 1 Ebrill 1998	14,222	9,981	24,203	
A ddarparwyd yn ystod y flwyddyn	4,136	4,225	8,361	i
Gwarediadau		(745)	(745)	
Gostyngiad parhaol mewn gwerth	(2,672)	-	(2,672)	
Ar 31 Mawrth 1999	**15,686**	**13,461**	**29,147**	
Gwerth Llyfr Net				
Ar 31 Mawrth 1998	13,336	6,827	20,163	
At 31 Mawrth 1999	**12,288**	**6,331**	**18,619**	

Nid oedd unrhyw ymrwymiadau i brynu asedion sefydlog ar 31 Mawth 1999.

6. DYLEDWYR

	1999 £	1998 £
Cymorth Grant y Swyddfa Gymreig i'w dderbyn	**23,276**	-
Rhagdaliadau	**1,120**	1,754
	24,396	1,754

7. CREDYDWYR: symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn

	1999 £	1998 £
Credydwyr masnach	**16,904**	4,376
Cymorth Grant y Swyddfa Gymreig i'w ad-dalu	**30**	7,070
Trethiant a Nawdd Cymdeithasol	**4,457**	2,111
Croniadau	**6,984**	8,689

i) Codwyd swm ychwanegol o £3,354 ar y Cyfrif Incwm a Gwariant. Mae hwn yn cynnwys gostyngiad parhaol mewn gwerth asedion sefydlog o £4,700 (£7,372 llai £2,672) wedi'u gwrthbwyso'n rhannol gan adbrisiad yn ystod y flwyddyn o £450 a'r balans a ddygwyd ymlaen ar y Gronfa Adbrisio Wrth Gefn o £896, sydd bellach wedi'i ddileu.

	28,375	22,246

8. PRYDLESAU GWEITHREDU

	Adeiladau		Peiriannau Swyddfa	
	1999	1998 (a ail-ddatganwyd)	**1999**	1998
	£	£	**£**	£
Ymrwymiadau Blynyddol o dan brydlesau gweithredu sy'n dod i ben:				
O fewn blwyddyn		-	**1,974**	1,974
O fewn dwy i bum mlynedd		-		-
Mewn mwy na phum mlynedd	**45,432**	45,432		-

9. SYMUDIADAU YNG NGHRONFEYDD Y LLYWODRAETH

	Grant Gohiriedig y Llywodraeth	**Cronfa Adbrisio Wrth Gefn**	**Cyfrif Income a Gwariant**	**Cyfanswm**
	£	**£**	**£**	**£**
Gwarged/(diffyg) am y flwyddyn			(1,885)	(1,885)
Addasiad ar gyfer cost cyfalaf			1,250	1,250
Cymorth Grant a dderbyniwyd am wariant cyfalaf	11,564			11,564
Cymorth Grant Gohiriedig a ryddhawyd i'r cyfrif incwm a gwariant	(12,212)			(12,212)
Adbrisio asedion sefydlog diriaethol		(896)		(896)
Symudiad yng Nghronfeydd y Llywodraeth am y Flwyddyn	(648)	(896)	(635)	(2,179)
Cronfeydd y Llywodraeth ar 1 Ebrill 1998	19,267	896	1,754	21,917
Cronfeydd y Llywodraeth ar 31 Mawrth 1999	18,619	-	1,119	19,738

10. NODIADAU I'R DATGANIAD LLIF ARIAN

LLIFOEDD ARIAN GROS

	1999	1998
	£	£
Elw ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid		
Llog a dderbyniwyd	**1,190**	1,116
Llog a dalwyd i'r Swyddfa Gymreig	**(1,283)**	(990)
	(93)	126
Gwariant cyfalaf		

Taliadau i gaffael asedion sefydlog diriaethol	**(11,564)**	(674)
Cyllido		
Swm a dderbyniwyd gan y Swyddfa Gymreig ar gyfer gwariant cyfalaf	**11,564**	674

11. TRAFODION PARTI CYSYLLTIEDIG

Mae'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol a noddir gan y Swyddfa Gymreig.

Ystyrir y Swyddfa Gymreig yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Comisiwn wedi cynnal amryw o drafodion perthnasol gyda'r Swyddfa Gymreig. Yn ogystal, mae'r Comisiwn wedi cynnal nifer fach o drafodion perthnasol gydag Adrannau eraill o'r Llywodraeth a chyrff Llywodraethol canolog eraill. Bu'r rhan fwyaf o'r trafodion hyn gyda Thþ'r Cwmnïau, a'r Tâl-feistr Cyffredinol.

Nid oes unrhyw un o aelodau'r Comisiwn, y staff rheoli allweddol na phartïon cysylltiedig eraill wedi cynnal unrhyw drafodion perthnasol gyda'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn ystod y flwyddyn.